# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 2

HENEBION O DDIDDORDEB HANESYDDOL ARBENNIG

## PENNOD 7

CYFFREDINOL

*Gwaith brys ar gyfer diogelu heneb gofrestredig*

PROSPECTIVE

**61 Gwaith ar gyfer diogelu heneb gofrestredig mewn achosion brys**

(1) Os yw'n ymddangos i Weinidogion Cymru fod unrhyw waith y mae adran 11 (gofyniad i waith gael ei awdurdodi) yn gymwys iddo yn angenrheidiol ar frys i ddiogelu heneb gofrestredig, cânt fynd i safle'r heneb a chyflawni'r gwaith hwnnw.

(2) Cyn arfer y pŵer yn is-adran (1) rhaid i Weinidogion Cymru roi o leiaf 7 niwrnod clir o rybudd yn ysgrifenedig i bob perchennog a phob meddiannydd ar yr heneb.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru yn cyflawni gwaith o dan yr adran hon ar gyfer atgyweirio unrhyw ddifrod i heneb gofrestredig—

(a) mae unrhyw orchymyn digolledu a wnaed yn flaenorol mewn cysylltiad â'r difrod hwnnw o dan Bennod 2 o Ran 7 o'r Cod Dedfrydu o blaid unrhyw berson arall yn orfodadwy (i'r graddau na chydymffurfiwyd ag ef eisoes) fel pe bai wedi ei wneud o blaid Gweinidogion Cymru, a

(b) rhaid i unrhyw orchymyn o'r fath a wneir wedyn mewn cysylltiad â'r difrod hwnnw gael ei wneud o blaid Gweinidogion Cymru.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 61 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol.*
*Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(4) Pan fo gwaith yn cael ei gyflawni o dan yr adran hon, mae'r gwaith i'w drin fel pe bai'n waith awdurdodedig at ddibenion Pennod 3 (rheolaethu gwaith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 61 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 61 yn gyfredol gyda’r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.